# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**19.00 nos Fawrth Ionawr 28ain 2025**

**<u>COFNODION</u>**

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith (Cadeirydd); Trefor Jones; Gwilym Jones; Dr Melfyn Edwards; Carol Hayes; Karena Owens; Alwyn Gruffydd; Glenda Murray; Michael Roberts
Marian Roberts ( Clerc)
**Absennol :-** Cyng Llywelyn Rhys

**E1.1.25 Ymddiheuriadau - dim**

**E2.1.25 Cae Pawb**

Adroddodd y Clerc bod coed peryglus wedi gorfod cael eu torri rhwng Cae Pawb a thir Rheilffordd yr Ucheldir. Hefyd nodwyd bod tenant sydd wedi talu am a gofalu am randir oedd yn enw ei mab ( sydd wedi marw ers 2023 ) wedi gwrthod clirio'r safle ar gyfer tenant newydd. Roedd wedi cytuno i'w glirio erbyn Tachwedd 2024 ond ni ddigwyddodd hyn. Cytunwyd i yrru llythyr ati i'w hysbysu bod y cytundeb yn dod i ben ac y bydd y rhandir yma yn dod yn rhydd i'w osod o 1.4.25 ymlaen.

**E3.1.25 Llwybrau**

**Yn absenoldeb Is-Gadeirydd cytunodd Cyng Alwyn Gruffydd i gadeirio'r cyfarfod tra bu trafodaeth ar gynigion y Cadeirydd.**

**Cyng Aled Griffith :** cynnig ysgrifennu at Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd i ddiolch iddynt am wella llwybr Capel Peniel.
**Penderfynwyd :** gweithredu ar y cynnig, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**Cyng Aled Griffith :** cynnig ysgrifennu at Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt wella cyflwr y llwybr rhwng fferm Penmount â'r Clwb Chwaraeon.
**Penderfynwyd :** gweithredu ar y cynnig, a holi pwy'n union sydd yn gyfrifol am y llwybr, Cyng Glenda Murray yn eilio.

**Dychwelodd y Cadeirydd i'r Gadair i lywyddu gweddill y cyfarfod.**

**E4.1.25 Cae Bodawen**

Dim i'w adrodd.

**E5.1.25 Bryn Coffa**

Dim i'w adrodd.

DRAFT

**E6.1.25 Llochesi Bws**

Y Clerc wedi derbyn gohebiaeth i ddweud bod 2 loches newydd ar restr aros Cyngor Gwynedd ( Gohebiaeth yng nghyfarfod Chwefror 11)

**E7.1.25 Cerflun Madocks**

Diolchwyd i'r Cyng Alwyn Gruffydd am ei waith yn ysgrifennu testun i'w osod ar fwrdd gwybodaeth am William Madocks.
**Penderfynwyd :-** Cyng Alwyn Gruffydd a'r Cyng Glenda Murray i gydweithio i fireinio'r testun cyn ei basio 'mlaen i'r Clerc i'w gyfieithu i'r Saesneg ac yna i'w drosglwyddo i Ffion Gwyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.25

Marian Roberts
29.1.25

DRAFT